OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2021 Rhif 954 (Cy. 218)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A465 (Cylchfan Resolfen i Gylchfan Glyn-nedd, Castell-nedd Port Talbot) (Gwaharddiadau a Chyfyngiadau Traffig Dros Dro) 2021

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *20 Awst 2021* |
| *Yn dod i rym* | *30 Awst 2021* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer cefnffordd yr A465, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig a/neu gyfyngu arno ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

### Enwi a chychwyn

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A465 (Cylchfan Resolfen i Gylchfan Glyn-nedd, Castell-nedd Port Talbot) (Gwaharddiadau a Chyfyngiadau Traffig Dros Dro) 2021 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 30 Awst 2021.

### Dehongli

**2.** Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw:

---

(**1**) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**) neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

(b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—

(i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu

(ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod sy'n dechrau am 06:00 o'r gloch ar 30 Awst 2021 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod gwaith eu symud ymaith;

ystyr "y gefnffordd" ("*the trunk road*") yw cefnffordd yr A465 Castell-nedd i'r Fenni;

ystyr "lluoedd arbennig" ("*special forces*") yw'r unedau hynny o'r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

### Gwaharddiadau a chyfyngiadau

**3.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

**4.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.

**5.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 10 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.

**6.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio cerbyd na chaniatáu i gerbyd, ac eithrio

(**1**) Diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p. 21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p. 15), paragraff 29(2) o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddu a'r Llysoedd 2013 (p. 22), ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p. 20).

cerbyd esempt, gael ei ddefnyddio yn y fath fodd fel ei fod yn goddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiad y cyfeirir ato yn erthygl 5 yn weithredol.

### Atal Dros Dro

**7.** Mae unrhyw ddarpariaethau statudol sy'n cyfyngu ar gyflymder cerbydau ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn wedi eu hatal dros dro ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiadau a bennir yn erthyglau 4 a 5 yn weithredol.

### Cymhwyso

**8.—**(1) Ni fydd y gwaharddiadau a'r cyfyngiadau yn erthyglau 3, 4, 5 a 6 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

(2) Nid yw unrhyw terfynau cyflymder a osodir gan y Gorchymyn hwn yn gymwys i gerbyd esempt.

### Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

**9.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, wrth weithredu o dan awdurdod y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 20 Awst 2021

*Nicci Hunter*
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

## ATODLEN 1
## Cau Cilfannau

Cilfannau cerbytffordd tua'r gogledd a cherbytffordd tua'r de yr A465 rhwng Cylchfan Resolfen a Chylchfan Glyn-nedd.

## ATODLEN 2
## Terfynau Cyflymder 40 mya a 10 mya Dros Dro a Gwahardd Goddiweddyd yn ystod Gwaith Confoi

Y darnau o gerbytffordd tua'r gogledd a cherbytffordd tua'r de yr A465 rhwng Cylchfan Resolfen a Chylchfan Glyn-nedd.